EA-WATER QUALITY BOX 12

# The Groundwater Regulations

**The Groundwater Regulations protect groundwater by controlling the discharge or disposal of potentially harmful and polluting materials.**

**If you handle, store or dispose of listed substances, which include agrochemicals, solvents, hydrocarbon-based fuels and other chemicals, these Regulations apply to you.**

The Environment Agency has responsibility for the Groundwater Regulations in England and Wales. These notes tell you how the Groundwater Regulations may affect you. *(This advice is subject to finalisation of DETR guidance on interpretation of the Regulations.)*

The Government introduced The Groundwater Regulations 1998 to complete the implementation of the EC Groundwater Directive *(Protection of Groundwater Against Pollution Caused by Certain Dangerous Substances 80/68/EEC).*

## What is groundwater?

Groundwater is any water in the ground below the water table. Groundwater is present, at various depths, in all land throughout the UK.

Many people use groundwater for drinking, watering stock and crop irrigation. Groundwater also helps maintain flows in rivers, streams and wetlands, supporting valuable wildlife habitats. If it becomes polluted, this pollution could remain for many years, and affect or prevent these uses.

Groundwater and surface water are interlinked and pollution of one can affect the quality of the other.

Groundwater therefore needs to be protected. The incorrect use and disposal of certain substances can lead to pollution of groundwater. The Groundwater Regulations help protect groundwater by controlling deliberate and accidental discharges of polluting substances.

## Requirements of the Regulations

### Authorisations

Anyone who disposes of listed substances (see below) or materials containing listed substances needs to apply to the Environment Agency for an authorisation. This requirement was introduced on 1 January 1999.

We will consider the application and, where the disposal is acceptable, we will issue an authorisation with appropriate conditions. Only then can a disposal can take place. In some cases it will be necessary to refuse the application because of the risks of groundwater pollution.

It is a criminal offence intentionally to dispose of these substances onto or into land, unless you have a Groundwater Authorisation. This does not include correct use of that substance according to established best practice.

ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD CYMRU
ENVIRONMENT AGENCY WALES

## What are listed substances?

The substances controlled under the Regulations fall into two lists.

**List 1** substances are the most toxic and must be prevented from entering groundwater. They include pesticides, sheep dip, solvents, hydrocarbons, mercury, cadmium and cyanide.

**List 2** substances are less dangerous, but entry of these substances into groundwater must be restricted to prevent pollution. They include some heavy metals and ammonia (which is present in sewage effluent), phosphorus and its compounds.

*List 1 and List 2 substances are shown at the end of this note.*

## When is an authorisation required?

An authorisation is only needed when you are making a disposal of listed substances onto or into land, for example;

### Agricultural activities

- spreading used sheep dip to land;
- washing out a pesticide spray tank onto a sacrificial area (if washings are returned to the crop in accordance with label requirements no authorisation is needed);
- disposal of dilute pesticide to land after washing down the exterior of pesticide spray equipment in a yard area;
- spreading vegetable or bulb dips/drenches, following treatment, to land.

You do not require an authorisation to use of any of these chemicals in accordance with the manufacturer's instructions; it is only the **disposal** of the substance that is controlled by the Regulations.

You do not require an authorisation if you are putting slurry, manure, sewage sludge or industrial waste on the land for its nutrient benefit, unless a listed substance is disposed with it.

### Sewage disposal

You need an authorisation to dispose of sewage effluent to ground in areas close to wells, springs and boreholes used to supply drinking water. Disposals of more than 5 cubic metres (1,100 gallons) per day will need authorisation regardless of location. In other cases the Agency will consider what other controls may be necessary to control disposals.

### Radioactive substances

Disposal of radioactive substances is covered by the Radioactive Substances Act 1993. The disposal of non-radioactive components, however, may fall under the Groundwater Regulations.

### Other permits

You do not require an authorisation if the disposal is already covered by a discharge consent (Water Resources Act 1991), an IPC authorisation, a PPC authorisation or waste management licence (Environmental Protection Act 1990).

If you are in any doubt as to whether your activity needs an authorisation please contact your local Environment Agency office (details overleaf) and we will be pleased to advise you.

## How do I make an application?

You can obtain an application form and guidance on how to complete it from your local Environment Agency office (see contact details overleaf). The application should be made in the name of the person responsible for the disposal.

The form asks for information on what the activity is and how and where it will take place. It also asks for details about the proposed disposal site, including a map or plan, to help us assess the risk of pollution. If the disposal site is acceptable we will be able to issue an authorisation with appropriate conditions.

### How do we decide if your disposal site is acceptable?

All activities requiring authorisation under the Groundwater Regulations must be subject to "prior investigation". This is the assessment undertaken to determine the risk of a particular disposal at the proposed location. In most cases the information you provide in completing the application form, together with information held by the Agency, should be sufficient to make this assessment.

We may need to contact you again for further details. In some cases an Agency officer may need to visit you or you may need to do a more detailed site investigation, for example by digging trial pits to ascertain the depth and type of soil and rock.

### How long will it take for an application to be approved?

Once your application is received and we have all the information we need, the Agency has four months in which to approve your application (unless an extension is agreed in writing). During this time you will not be able to make a disposal. The Agency will endeavour to process your application as rapidly as possible, but to help this process please provide all the information requested in the application form.

### How long will an authorisation last?

Your authorisation will be reviewed every four years. You will receive an inspection visit from an Agency officer during this time to ensure that you are complying with the authorisation. The Agency can serve a notice to modify the conditions of the authorisation at any time if it is considered necessary. The authorisation holder may also want the Agency to make changes to the authorisation.

### How much will it cost?

For a disposal of less than 5 cubic metres (5,000 litres or 1,100 gallons) per day and not exceeding 30 cubic metres per year, the application fee is £92. There is no subsistence fee for smaller disposals for the first four years from the date of authorisation.

For disposals of more than 5 cubic metres per day or 30 cubic metres per year, the application fee is £645. There is also an annual subsistence fee. The amount of the fee will depend on what volume and which substances are being disposed of. Further guidance on fees is available from your local Environment Agency office.

In some circumstances, for example where the proposed discharge is particularly contentious, it may be necessary to advertise the application to bring it to public attention. You will be notified if this is considered to be appropriate for your application; you will have to pay the costs of this.

## Monitoring the disposal

It is a requirement of the Groundwater Regulations to ensure that groundwater is adequately monitored in the vicinity of authorised disposal sites. In most cases this will be undertaken by the Environment Agency in the course of routine monitoring and sampling. In exceptional cases, for example for large disposals, the authorisation holder may be required to carry out further monitoring and submit the data to the Agency. In these cases the authorisation holder has to bear the cost.

## Appeals

You may appeal to the Secretary of State for the Environment (or National Assembly for Wales) within three months of the authorisation being issued. Any disposal made before the appeal is heard must comply with the conditions of the authorisation.

You can also appeal to the Secretary of State (or the Assembly) if the application is refused (or in the case of non-determination by the Agency, when it is deemed refused after the four-month determination period lapses) within three months of refusal.

## Failure to apply

It is illegal to dispose of any listed substances to land without an authorisation. To do so could render you liable to prosecution.

The Agency periodically carries out campaigns to locate activities requiring authorisation and to encourage more people to apply and comply with the law. Enforcement action may be taken against those without an authorisation or anyone making a disposal that does not comply with the conditions of their authorisation.

## Codes of practice and notices

Activities involving the manufacture, handling, storage and use of listed substances where there may be unintentional releases to ground or groundwater do not require a Groundwater Regulations authorisation. However, they are covered by other parts of the Regulations through the use of codes of practice and notices.

### Codes of practice

Statutory codes of practice for the handling and storage of listed substances are currently being compiled. These will draw on existing codes of good practice with the aim of capitalising on good management and housekeeping to prevent pollution.

### Notices

Where there is a risk that groundwater may become polluted, the Agency may serve a notice prohibiting the activity or allowing it to continue subject to conditions.

Summary of the listed substances controlled under the Groundwater Regulations 1998

*Further information about controlled substances can be found in the Groundwater Regulations 1998 (ISBN 0-11-079799-X)*

**List 1:**

- organohalogen compounds and substances which may form such compounds in the aquatic environment
- organophosphorus compounds
- organotin compounds
- substances which possess carcinogenic, mutagenic or teratogenic properties in or via the aquatic environment (including substances which have those properties which would otherwise be in list 2)
- mercury and its compounds
- cadmium and its compounds
- mineral oils and hydrocarbons
- cyanides

**List 2:**

- the following metals and metalloids and their compounds; Zinc, Copper, Nickel, Chromium, Lead, Selenium, Arsenic, Antimony, Molybdenum, Titanium, Tin, Barium, Beryllium, Boron, Uranium, Vanadium, Cobalt, Thallium, Tellurium, Silver
- biocides and their derivatives not appearing in List 1
- substances which have a deleterious effect on the taste or odour of groundwater and compounds liable to cause the formation of such substances in such water and to render it unfit for human consumption
- toxic or persistent organic compounds of silicon and substances which may cause the formation of such compounds in water, excluding those which are biologically harmless or are rapidly converted in water into harmless substances
- inorganic compounds of phosphorus and elemental phosphorus
- fluorides
- ammonia and nitrites

## Further information -
## If you would like more information on the Groundwater Regulations or have any other queries please telephone 0845 933 3111 and you will be put through to your local Environment Agency office.

ENVIRONMENT AGENCY
089203

**ENVIRONMENT AGENCY**
HEAD OFFICE
Rio House
Waterside Drive
Aztec West
Almondsbury
Bristol BS32 4UD
Tel: 01454 624400
Fax: 01454 624409
www.environment-agency.gov.uk

**ENVIRONMENT AGENCY WALES**
WALES OFFICE
Rivers House
St Mellons Business Park
Fortran Road
St Mellons
Cardiff CF3 0EY
Tel: 029 2077 0088
Fax: 029 2079 8555
www.environment-agency.wales.gov.uk







ENVIRONMENT AGENCY
GENERAL ENQUIRY LINE

**0845 933 3111**

ENVIRONMENT AGENCY
FLOODLINE

**0845 988 1188**

ENVIRONMENT AGENCY
EMERGENCY HOTLINE

**0800 80 70 60**

ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD CYMRU
ENVIRONMENT AGENCY WALES

ENVIRONMENT AGENCY
NATIONAL LIBRARY &
INFORMATION SERVICE
ANGLIAN REGION
Kingfisher House, Goldhay Way,
Orton Goldhay,
Peterborough PE2 5ZR

# Rheoliadau Dŵr Daear

**Mae Rheoliadau Dŵr Daear yn gwarchod dŵr daear trwy reoli'r gwaith o ollwng neu waredu deunyddiau a allai niweidio neu lygru.**

**Os ydych yn trafod, yn storio neu'n gwaredu sylweddau rhestredig, sy'n cynnwys agrocemegau, toddyddion, tanwydd seiliedig ar hydrocarbon a chemegau eraill, yna mae'r Rheoliadau hyn yn berthnasol i chi.**

Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n gyfrifol am Reoliadau Dŵr Daear yng Nghymru a Lloegr. Mae'r nodiadau hyn yn dweud wrthych sut y gallai Rheoliadau Dŵr Daear effeithio arnoch chi. (Mae'r cyngor hwn yn amodol ar ganllawiau terfynol DETR ar ddehongli'r Rheoliadau.)

Cyflwynodd y Llywodraeth Reoliadau Dŵr Daear 1998 fel cam olaf gweithredu Cyfarwyddeb Dŵr Daear y CE (Gwarchod Dŵr Daear rhag Llygredd a achosir gan Rai Sylweddau Peryglus 80/86/EEC)

## Beth yw Dŵr Daear?

Unrhyw ddŵr yn y ddaear islaw'r lefel trwythiad yw dŵr daear. Mae dŵr daear yn bresennol, ar ddyfnderau amrywiol, yn holl dir y DU.

Mae llawer o bobl yn defnyddio dŵr daear ar gyfer yfed, rhoi dŵr i anifeiliaid a dyfrhau cnydau. Mae dŵr daear hefyd yn helpu i gynnal llif y dŵr mewn afonydd, nentydd a gwlyptiroedd, ac yn cynnal cynefinoedd bywyd gwyllt gwerthfawr. Os bydd yn cael ei lygru, gallai'r llygredd hwn aros am lawer o flynyddoedd, gan effeithio ar y ffyrdd hyn o ddefnyddio'r dŵr neu eu hatal.

Mae dŵr daear a dŵr wyneb yn gysylltiedig ac os yw'r naill yn cael ei lygru mae'n gallu effeithio ar ansawdd y llall.

Felly mae angen gwarchod dŵr daear. Os yw rhai sylweddau yn cael eu defnyddio neu eu gwaredu mewn dull anghywir yna gallai hyn lygru dŵr daear. Mae Rheoliadau Dŵr Daear yn helpu i warchod dŵr daear trwy reoli digwyddiadau pan fydd sylweddau sy'n gallu llygru yn cael eu gollwng yn fwriadol neu'n ddamweiniol.

## Gofynion y Rheoliadau

### Awdurdodiadau

Rhaid i unrhyw un sy'n gwaredu sylweddau rhestredig (gweler isod) neu ddeunyddiau sy'n cynnwys sylweddau rhestredig wneud cais i Asiantaeth yr Amgylchedd am awdurdodiad. Cyflwynwyd y gofyniad hwn ar 1 Ionawr 1999.

Byddwn yn ystyried y cais a, lle mae'n dderbyniol gwaredu, byddwn yn rhoi awdurdodiad gydag amodau priodol. Dim ond pryd hynny y gall y gwaredu ddigwydd. Mewn rhai achosion bydd rhaid gwrthod y cais oherwydd perygl o lygru dŵr daear.

Mae'n drosedd cyfreithiol gwaredu'r sylweddau hyn yn fwriadol ar y tir neu i mewn i'r tir, os nad oes gennych Awdurdodiad Dŵr Daear. Nid yw hyn yn cynnwys defnyddio'r sylwedd hwnnw mewn ffordd gywir yn unol â'r arfer gorau sydd wedi ei sefydlu.

ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD CYMRU
ENVIRONMENT AGENCY WALES

## Beth yw'r sylweddau rhestredig?

Mae'r sylweddau a reolir o dan y Rheoliadau yn rhannu'n ddwy restr.

Sylweddau **Rhestr 1** yw'r rhai mwyaf gwenwynig a rhaid eu hatal rhag mynd i mewn i ddŵr daear. Maent yn cynnwys plaleiddiaid, dip defaid, toddyddion, hydrocarbonau, mercwri, cadmiwm a cyanid.

Mae sylweddau **Rhestr 2** yn llai peryglus, ond rhaid cyfyngu ar faint o'r sylweddau hyn sy'n mynd i mewn i ddŵr daear er mwyn atal llygredd. Maent yn cynnwys rhai metelau trwm ac amonia (sy'n bresennol mewn elifion carthion), ffosfforws a'i gyfansoddion.

*Dangosir sylweddau Rhestr 1 a Rhestr 2 ar ddiwedd y nodyn hwn.*

## Pryd mae angen Awdurdodiad?

Nid oes angen awdurdodiad ond pan fyddwch yn gwaredu sylweddau rhestredig ar y tir neu i mewn i'r tir, er enghraifft:

**Gweithgareddau amaethyddol**

- taenu hen ddip defaid ar y tir
- golchi tanc chwistrellu plaleiddiaid ar dir wedi'i neilltuo at y pwrpas (os yw'r golchion yn cael eu dodi yn ôl ar y cnwd yn ôl y cyfarwyddiadau ar y label nid oes angen awdurdodiad)
- gwaredu plaleiddiad wedi'i wanhau ar y tir ar ôl golchi i lawr y tu allan i offer chwistrellu plaleiddiaid ar fuarth;
- taenu dipiau/dognau llysiau neu fylbiau, yn dilyn triniaeth, ar y tir.

Nid oes angen awdurdodiad arnoch i ddefnyddio unrhyw un o'r cemegau hyn, yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr; dim ond y dull o waredu'r sylweddau a reolir gan y Rheoliadau.

Nid oes angen awdurdodiad arnoch os ydych yn taenu slyri, tail, slwj carthion neu wastraff diwydiannol ar y tir oherwydd y maetholion sydd ynddynt, oni bai bod sylwedd rhestredig yn cael ei waredu hefyd.

**Gwaredu carthion**

Mae angen awdurdodiad arnoch i waredu elifion carthion ar dir yng nghyffiniau ffynhonnau, pistyllau a thyllau turio a ddefnyddir i ddarparu dŵr yfed. Os ydych am waredu mwy na 5 metr ciwbig (1,100 galwyn) fesul diwrnod bydd arnoch angen awdurdodiad waeth ble mae'r lleoliad. Mewn achosion eraill bydd yr Asiantaeth yn ystyried pa reolaeth arall fydd ei hangen i reoli'r gwaith o waredu.

**Sylweddau ymbelydrol**

Mae Deddf Sylweddau Ymbelydrol 1993 yn rheoli'r achosion o waredu sylweddau ymbelydrol. Ond gall y gwaith o waredu cydrannau nad ydynt yn ymbelydrol ddod o dan Reoliadau Dŵr Daear.

**Caniatadau eraill**

Nid oes angen awdurdodiad os ydych chi eisoes wedi cael caniatâd gollwng (Deddf Adnoddau Dŵr 1991), awdurdodiad RhLl, awdurdodiad ARhLl neu drwydded rheoli gwastraff (Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990). Os ydych yn ansicr a oes angen awdurdodiad arnoch ar gyfer gweithgaredd arbennig cysylltwch â'ch swyddfa Asiantaeth yr Amgylchedd leol (manylion dros y dudalen) a byddwn ni'n falch o roi cyngor i chi.

## Sut ydw i'n gwneud cais?

Cewch ffurflen gais a chanllawiau ynghylch sut i'w llenwi o'ch swyddfa Asiantaeth yr Amgylchedd leol (gweler manylion cyswllt drosodd). Dylid gwneud y cais yn enw'r sawl sy'n gyfrifol am waredu'r deunydd.

Mae'r ffurflen yn gofyn beth yw'r gweithgaredd a sut a lle bydd yn digwydd. Mae hefyd yn gofyn am fanylion ynghylch y safle lle bwriedir gwaredu, gan gynnwys map neu gynllun, i'n helpu i asesu beth yw'r perygl o lygredd. Os yw'r safle gwaredu yn dderbyniol gallwn roi awdurdodiad i chi gydag amodau priodol.

**Sut ydym yn penderfynu a yw eich safle gwaredu yn dderbyniol?**

Rhaid cynnal 'ymchwiliad ymlaen llaw' ar gyfer pob gweithgaredd sydd angen awdurdodiad o dan y Rheoliadau Dŵr Daear. Cynhelir yr asesiad hwn i benderfynu pa mor beryglus fydd gwarediad neilltuol yn y safle arfaethedig. Yn y mwyafrif o achosion dylai'r wybodaeth a nodwch ar y ffurflen gais ynghyd â'r wybodaeth sydd ym meddiant yr Asiantaeth fod yn ddigonol i wneud yr asesiad hwn.

Mae'n bosibl y bydd angen i ni gysylltu â chi eto i gael manylion pellach. Mewn rhai achosion efallai bydd yn rhaid i swyddog o'r Asiantaeth ymweld â chi, neu efallai bydd yn rhaid i chi archwilio'r safle yn fwy manwl, er enghraifft trwy gloddio pydewau prawf i gael gweld beth yw dyfnder a math y pridd a'r graig.

**Pa mor hir fydd yn cymryd i awdurdodiad gael ei gymeradwyo?**

Unwaith y byddwn yn derbyn eich cais ac wedi derbyn yr holl wybodaeth angenrheidiol, mae gan yr Asiantaeth bedwar mis i gymeradwyo'ch cais (oni bai i ni gytuno'n ysgrifenedig ar estyniad). Yn ystod y cyfnod hwn ni chewch waredu deunydd. Bydd yr Asiantaeth yn gwneud ei gorau glas i brosesu'ch cais mor gyflym ag y bo modd, ond i helpu'r broses hon a wnewch chi ddarparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar y ffurflen gais.

**Pa mor hir fydd yr awdurdodiad yn parhau?**

Caiff eich awdurdodiad ei adolygu bob pedair blynedd. Bydd swyddog o'r Asiantaeth yn ymweld â chi i archwilio'r gwaith yn ystod y cyfnod hwn er mwyn gwneud yn siwr eich bod yn cydymffurfio â'r awdurdodiad. Gall yr Asiantaeth roi rhybudd i newid amodau'r awdurdodiad ar unrhyw adeg os ystyrir bod hyn yn angenrheidiol. Efallai bydd deiliad yr awdurdodiad am i'r Asiantaeth wneud newidiadau i'r awdurdodiad hefyd.

**Faint fydd yn costio?**

I waredu llai na 5 metr ciwbig (5,000 litr neu 1,100 galwyn) fesul diwrnod, a dim mwy na 30 metr ciwbig y flwyddyn, £92 yw'r ffi ymgeisio. Nid oes ffi cynnal ar gyfer gwarediadau llai am y pedair blynedd cyntaf ar ôl dyddiad yr awdurdodiad.

Ar gyfer gwarediadau o fwy na 5 metr ciwbig y diwrnod neu 30 metr ciwbig y flwyddyn, £645 yw'r ffi ymgeisio. Y mae ffi cynnal blynyddol hefyd. Bydd swm y ffi yn dibynnu ar faint a waredir a pha sylweddau a waredir. Cewch arweiniad pellach ynghylch ffioedd o'ch swyddfa Asiantaeth yr Amgylchedd leol.

Mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft, lle mae'r gollyngiad arfaethedig yn destun dadl boeth, efallai bydd yn rhaid hysbysebu'r cais er mwyn ei ddwyn i sylw'r cyhoedd. Cewch wybod os ystyrir bod hyn yn briodol i'ch cais; chi fydd yn gorfod talu costau hyn.

## Monitro'r gwaith gwaredu

Un o ofynion y Rheoliadau Dŵr Daear yw sicrhau bod dŵr daear yn cael ei fonitro'n ddigonol yng nghyffiniau safleoedd gwaredu awdurdodedig. Yn y mwyafrif o achosion Asiantaeth yr Amgylchedd fydd yn gwneud hyn wrth wneud gwaith monitro a samplo rheolaidd. Mewn achosion eithriadol, er enghraifft yn achos gwarediadau mawr, efallai bydd yn rhaid i ddeilydd yr awdurdodiad wneud gwaith monitro pellach a chyflwyno'r data i'r Asiantaeth. Yn yr achosion hyn rhaid i ddeilydd yr awdurdodiad dalu'r gost.

## Apeliadau

Cewch apelio at yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd (neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru) o fewn tri mis ar ôl derbyn yr awdurdodiad. Os gwneir gwaith gwaredu cyn i'r apêl gael ei chlywed rhaid i'r gwaith hwnnw gydymffurfio ag amodau'r awdurdodiad.

Cewch apelio hefyd at yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd (neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru) os gwrthodir y cais ( neu os nad yw'r Asiantaeth yn gwneud penderfyniad, pan dybir ei fod wedi cael ei wrthod ar ôl i'r cyfnod penderfynu pedwar mis ddirwyn i ben) o fewn tri mis ar ôl iddo gael ei wrthod.

## Methu â gwneud cais

Mae'n anghyfreithlon gwaredu unrhyw sylwedd rhestredig ar y tir heb awdurdodiad. Os gwnewch hyn gallech chi fod yn agored i gael eich erlyn.

Bob hyn a hyn bydd yr Asiantaeth yn cynnal ymgyrchoedd er mwyn canfod gweithgareddau sydd angen awdurdodiad ac er mwyn annog mwy o bobl i wneud cais ac i gydymffurfio â'r gyfraith. Gellir cymryd camau gorfodi yn erbyn y rhai hynny sydd heb awdurdodiad neu unrhyw un sy'n gwaredu deunydd nad yw'n cydymffurfio ag amodau eu hawdurdodiadau.

## Codau Ymarfer a Rhybuddion

Yn achos gweithgareddau sy'n ymwneud â chynhyrchu, trafod, storio a defnyddio sylweddau rhestredig lle mae'n bosibl i ddeunydd gael ei ollwng yn anfwriadol i'r ddaear neu i ddŵr daear nid oes angen awdurdodiad Rheoliadau Dŵr Daear. Ond mae gweithgareddau felly yn dod o fewn cwmpas rhannau eraill o'r Awdurdodiadau trwy'r defnydd o godau ymarfer a rhybuddion.

**Codau Ymarfer**

Ar hyn o bryd mae codau ymarfer statudol sy'n ymwneud â thrafod a storio sylweddau rhestredig yn cael eu casglu. Bydd y rhain yn tynnu ar godau arfer da presennol gyda'r nod o fanteisio ar arferion rheoli ac ariannol da er mwyn atal llygredd.

**Rhybuddion**

Lle mae perygl y gellid llygru dŵr daear, gall yr Asiantaeth gyhoeddi rhybudd yn gwahardd y gweithgaredd neu'n caniatáu iddo barhau yn amodol ar amodau.

Crynodeb o'r sylweddau rhestredig a reolir o dan Reoliadau Dŵr Daear 1998

*Ceir mwy o wybodaeth ynghylch sylweddau rheoledig yn Rheoliadau Dŵr Daear 1998 (ISBN 0-11-079799-X)*

**Rhestr 1:**
- cyfansoddion organohalogen a sylweddau a all ffurfio cyfansoddion felly yn yr amgylchedd dŵr
- cyfansoddion organoffosfforws
- cyfansoddion organotin
- sylweddau sydd yn meddu ar nodweddion carcinogenig, mwtagenig neu deratogenig yn neu drwy gyfrwng yr amgylchedd dŵr ( gan gynnwys sylweddau sydd yn meddu ar y nodweddion hynny a fyddai fel arall yn rhestr 2)
- mercwri a'i gyfansoddion
- cadmiwm a'i gyfansoddion
- olewau mwynol a hydrocarbonau
- cyanidau

**Rhestr 2:**
- y metalau a'r metaloidau canlynol a'u cyfansoddion: Sinc, Copor, Nicel, Cromiwm, Plwm, Seleniwm, Arsenig, Antimoni, Molybdenwm, Titaniwm, Tun, Bariwm, Beryliwm, Boron, Wraniwm, Fanadiwm, Cobalt, Thaliwm, Telwriwm, Arian
- bioleiddiaid a'u deilliadau nad ydynt yn ymddangos yn Rhestr 1
- sylweddau sydd yn cael effaith andwyol ar flas neu arogl dŵr daear a chyfansoddion sydd yn debyg o beri i sylweddau felly ymffurfio mewn dŵr a'i wneud yn anaddas i'w yfed gan bobl
- cyfansoddion silicon organig gwenwynig neu barhaol a sylweddau a all achosi i gyfansoddion felly ymffurfio mewn dŵr ac eithrio'r rhai hynny sydd yn ddiniwed yn fiolegol neu sy'n cael eu troi'n gyflym mewn dŵr yn sylweddau diniwed
- cyfansoddion anorganig ffosfforws a ffosfforws elfennol
- fflworidau
- amonia a nitradau

Gwybodaeth bellach –
Os hoffech fwy o wybodaeth ynghylch Rheoliadau Dŵr Daear neu os oes gennych ymholiadau eraill ffoniwch **0845 933 3111** i gysylltu â'ch swyddfa Asiantaeth yr Amgylchedd leol.

**ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD**
PENCADLYS
Rio House
Waterside Drive
Aztec West
Almondsbury
Bryste BS32 4UD
Ffôn: 01454 624400
Ffacs: 01454 624409
www.asiantaeth-amgylchedd.gov.uk

**ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD CYMRU**
SWYDDFA CYMRU
Plas-yr-Afon
Parc Busnes Llaneirwg
Heol Fortran
Llaneirwg
Caerdydd CF3 0EY
Ffôn: 029 2077 0088
Ffacs: 029 2079 8555
www.asiantaeth-amgylchedd.cymru.gov.uk






YMHOLIADAU CYFFREDINOL
ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD
**0845 933 3111**

LLINELL LLIFOGYDD
ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD
**0845 988 1188**

LLINELL ARGYFWNG
ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD
**0800 80 70 60**

ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD CYMRU
ENVIRONMENT AGENCY WALES